

GWNEUD YR UNED ROTOR



1. Torrwch ddarn o'r tâp gludo yr un maint ag ochr fflat y modur a'i roi ar yr ochr fflat lle nad oes unrhyw gysylltiadau trydanol.
2. Gludwch y modur i ben byr y bocs batri fel bod top y modur yr un lefel â thop y bocs batri.
3. Rhowch ddau fatri AA yn y bocs batri a rhowch y ddwy wifren i gyffwrdd â'r cysylltiadau ar y modur. Gan edrych i lawr ar y modur, dylai'r siafft droi i gyfeiriad gwrthglocwedd. Os yw'n troi i gyfeiriad clocwedd, newidiwch y ddwy wifren. Gwnewch nodyn o ba derfynell mae'r wifren goch yn mynd i mewn iddo a sodrwch y ddwy wifren yn eu lle.
4. Glynwch wifrau'r bocs batri wrth ochr y bocs batri heb switsh a rhowch fand rwber am y modur a'r bocs batri i helpu i gadw'r modur yn ei le.
5. Gwthiwch y llafn gwthio lleiaf ar y siafft a thaniwch y bocs batri i wneud yn siŵr bod popeth yn gweithio.

GWNEUD YR ADDASYDD ROTOR



1. Tynnwch y gromen oddi ar siafft yr addasydd llafn gwthio ac ychwanegwch un neu ddwy nyten fel gwahanyddion.
2. Lapiwch dâp am y colet a'r nytiau yn unig. Trimiwch unrhyw dâp sydd dros ben.
3. Rhowch y gromen yn ôl ar siafft yr addasydd.

GWNEUD YR ADDASYDD ROTOR

1. Lluniwch ddau ddisg â diamedr o 8cm ar hambwrdd alwminiwm untro a thorrwch nhw allan.
2. Dewch o hyd i ganol y ddisg. Gosodwch ganol y ddisg ar gorcyn/blu-tac a thorrwch dwll bach trwy'r canol gan ddefnyddio blaen pin.